**Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Ambiwlans Awyr Cymru**
Dydd Mercher 29ain Mawrth 2017, 12-1.15pm.
Ystafelloedd Seminar, Adeilad y Pierhead. Bae Caerdydd
Noddir gan Lee Waters AC

**Yn bresennol**

| **Ambiwlans Awyr Cymru** | **Llythrennau blaen** |
|---|---|
| Angela Hughes, Prif Weithredwr | AH |
| Christina Hawkins, Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus | CH |
| Alice Gray, Swyddog Cyfryngau | AG |
| Des Kitto, Ymddiriedolwr | DK |
| Dafydd Jones-Morris, Ymddiriedolwr | DJM |
| Dr Kyle Jacques, Dirprwy Gadeirydd | KJ |
| Lynne Garlick, Rheolwr Codi Arian | LG |
| James Stephens, Cyfrifydd Rheoli | JS |
| Mark Stevens, Rheolwr Codi Arian | MS |
| Andrew Lawton, Pennaeth Manwerthu a Masnachu | AL |

| **EMRTS Cymru** | |
|---|---|
| Dr Dindi Gill, Cyfarwyddwr Cenedlaethol dros dro | DG |
| Steve Stokes, Rheolwr Cyfathrebu | SS |
| Mark Winter, Rheolwr Gweithrediadau | MW |

| **Aelodau Cynulliad** | **Llythrennau blaen** |
|---|---|
| Lee Waters AC (noddwr) | LW |
| Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon | VG |
| Rhun ap Iowerth AC | RI |
| Dai Lloyd AC | DL |
| Hannah Blythyn AC | HB |
| Bethan Jenkins AC | BJ |
| David Rees AC | DR |

ELUSEN AMBIWLANS AWYR CYMRU
WALES AIR AMBULANCE CHARITY

Children's WALES AIR AMBULANCE
AMBIWLANS AWYR CYMRU i Blant

**Agenda**
***Trawsnewid gofal cyn mynd i'r ysbyty a throsglwyddo/adfer yng Nghymru: Rhannu gweledigaeth yr ambiwlans awyr***

1. Cyflwyniad gan Lee Waters AC, y noddwr.
2. Cyflwyniad gan Angela Hughes, Prif Swyddog Gweithredol Ambiwlans Awyr Cymru a Dr Dindi Gill, Cyfarwyddwr EMRTS Cymru dros dro,.
3. Sesiwn holi ac ateb gydag Angela Hughes, Dr Dindi Gill a Mark Winter, Rheolwr Gwasanaeth.
4. Sylwadau cloi.

**Camau gweithredu'r cyfarfod**

| **Cofnod** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **Cyfrifoldeb** |
|---|---|---|
| **7** | Cadarnhau cyfarfod nesaf y grŵp trawsbleidiol. | **CH/AH.** |

**Cofnodion**

| **Cofnod** | **Disgrifiad** | **Cam gweithredu** |
|---|---|---|
| **1** | **CROESO AC ETHOLIADAU** | |
| 1.1<br><br>1.2<br><br>1.3 | Croesawodd y noddwr Lee Waters AC (**LW**) bawb i gyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Ambiwlans awyr Cymru.<br><br>Awgrymodd Dai Lloyd AC (**DL**) **LW** fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol. Eiliwyd hyn gan Rhun ap Iorwerth (**RI**) a derbyniodd **LW**.<br>Awgrymodd **LW** Angela Hughes (**AH**) fel Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol. Eiliwyd hyn gan **DL** a derbyniodd **AH**. | |
| **2** | **CYFLWYNIAD: CYFLWYNIAD GAN AH** | |
| 2.1 | Cyflwynodd **AH** yr elusen i'r grŵp, gan sôn am ei hanes a'i datblygiadau diweddaraf. | |
| **3** | **YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS IECHYD** | |
| 3.1<br><br>3.2 | Gwahoddwyd Vaughan Gething (**VG**), Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, i sôn rhywfaint ar gyflwyno EMRTS Cymru, 'The Welsh Flying Medics'.<br><br>Rhoddodd **VG** glod i'r bartneriaeth unigryw rhwng y cyhoedd | |

| | | |
|---|---|---|
| <br><br><br><br>3.3 | a'r trydydd sector. Pwysleisiodd y dystiolaeth ystadegol a oedd yn dangos gwerth y gwasanaeth a croesawodd y gefnogaeth trawsbleidiol i'r gwasanaeth.<br><br>Gadawodd **VG** y Grŵp Trawsbleidiol. | |
| **4** | **CYFLWYNIAD CLINIGOL/GWEITHREDOL** | |
| 4.1<br><br><br><br><br>4.2<br><br><br><br><br><br><br>4.3<br><br><br><br><br><br><br><br><br>4.4 | Cyflwynodd Dr Dindi Gill (**DG**) drosolwg clinigol/gweithredol o Ambiwlans Awyr Cymru. Cyflwynodd EMRTS Cymru i'r aelodau ac esboniodd sut y'i sefydlwyd mewn partneriaeth â'r elusen a soniodd am ei seilwaith a'i drefniadau llywodraethu o fewn y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol.<br>Pwysleisiodd **DG** y weledigaeth o ran sut mae'n gweithredu'n glinigol a phwysigrwydd cydweithio â Byrddau Iechyd er mwyn parhau i wella gofal cyn mynd i'r ysbyty a throsglwyddo/adfer yng Nghymru. Bydd hyn hefyd yn helpu i leihau pwysau ar wasanaethau rheng flaen o fewn ysbytai, yn arbennig pan fydd Canolfannau Trawma Mawr yn cael eu hadolygu yn Ne Cymru.<br>Daeth **AH** â'r cyflwyniad i ben drwy gynnig mewnwelediad i ddatblygiadau parhaus Ambiwlans Awyr Cymru a'i amcanion ar gyfer 2017. Roedd hyn yn cynnwys llynges newydd o hofrenyddion datblygedig H145 ar gyfer tri chanolfan yr elusen yng Nghaernarfon, y Trallwng a Llanelli; datblygu pedwaredd awyren yng Nghaerdydd ar gyfer teithiau trosglwyddo, yn cynnwys gwaith yr elusen gydag Ambiwlans Awyr Cymru i Blant; a'r weledigaeth hirdymor o fod ar waith 24 awr y dydd.<br>Gwahoddodd Angela Hughes bawb i Ddiwrnod Agored Hofrenfa Caerdydd ar 9 Ebrill, lle bydd yr awyren newydd H145 yn cael ei harddangos. | |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **SESIWN HOLI AC ATEB** | |
| 5.1<br><br><br><br><br><br>5.2<br><br><br><br><br>5.3 | Gofynnodd David Rees AC (**DR**) beth oedd y goblygiadau o ran glanio ar dir sy'n heriol yn ystod y nos. Esboniodd Mark Winter (**MW**) y bydd glanio yn ystod y nos yn bosibl gyda hyfforddiant ac ar ôl sefydlu ardaloedd glanio hofrenyddion wedi eu goleuo. Mae Ambiwlans Awyr Cymru ac EMRTS yn profi systemau goleuo 'Glimm' ar hyn o bryd ar gyfer glanio yn ystod y nos.<br>Gofynnodd **LW** beth y gallai Aelodau Cynulliad ei wneud i gefnogi Ambiwlans Awyr Cymru a'i amcanion. Esboniodd **AH** a **DG** ei bod yn angenrheidiol bod Byrddau Iechyd yn deall holl fanteision y gwasanaeth a'u rôl wrth ddatblygu'r gwasanaeth.<br><br>Cynigodd **LW** i helpu i gyfathrebu'r negeseuon allweddol hyn a hwyluso unrhyw gamau gweithredu i helpu i gefnogi datblygiad y gwasanaeth. | |
| **6** | **SYLWADAU CLOI** | |
| 6.1 | Daeth **LW** â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i bawb am fynychu. Awgrymodd ein bod ni oll yn cadw mewn cysylltiad y tu allan i ddigwyddiadau'r Grŵp Trawsbleidiol er mwyn hwyluso unrhyw gamau gweithredu rhwng cyfarfodydd. | |
| **7** | **CYFARFOD NESAF** | |
| 7.1 | 15 Tachwedd 2017, y Senedd (i'w gadarnhau). | **CH/AH** |